Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS
Y Dirprwy Brif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Drwy e-bost: HRAReform@justice.gov.uk

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

7fed Mawrth 2022

Annwyl Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder,

Diwygio Deddf Hawliau Dynol: Deddf Hawliau Modern – ymgynghoriad

Fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, mae fy rôl fel hyrwyddwr a llais annibynnol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yn canolbwyntio ar hawliau a sicrhau bod hawliau pob person hŷn yn cael eu cynnal. Felly, mae cynigion Llywodraeth y DU i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol â Deddf Hawliau arfaethedig y DU ac effaith gweithredu o'r fath ar hawliau dynol pobl hŷn sy'n byw yng Nghymru yn destun pryder mawr i mi.

Canfu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn ei asesiad o gyflwr hawliau dynol yng Nghymru, fod pandemig Covid-19 wedi effeithio'n anghymesur ar hawliau dynol pobl hŷn.[i] Mae pandemig Covid-19 wedi datgelu agweddau ar oedraniaeth sydd wedi hen sefydlu mewn sawl maes ar draws cymdeithas. Canfu adroddiad byd-eang diweddar ar oedraniaeth[ii] gan Sefydliad Iechyd y Byd fod 1 o bob 2 o bobl yn oedraniaethwyr, gan wneud gwahaniaethu ar sail oedran yn un o'r mathau mwyaf cyffredin o wahaniaethu. Felly, mae'n bwysicach nawr nag erioed i gryfhau amddiffyniadau hawliau dynol.

Yr wyf yn pryderu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn nid yn unig yn gwanhau'r broses o orfodi hawliau pobl hŷn, ond y bydd, i bob pwrpas, yn creu system ddwy haen lle mae rhai pobl yn ein cymdeithas yn cael eu hystyried yn llai haeddiannol o ran hawliau dynol. Un o egwyddorion sylfaenol y Datganiad Cyffredinol ar Hawliau Dynol yw bod hawliau dynol yn rhai ar gyfer pawb, i'w mwynhau'n gyfartal gan bob un ohonom, heb wahaniaethu.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Daeth yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol[1] i'r casgliad nad oedd achos da dros wneud newidiadau sylweddol i'r Ddeddf Hawliau Dynol fel y mae ar hyn o bryd, ar sail y dystiolaeth helaeth a gafodd gan rai o arbenigwyr cyfreithiol mwyaf blaenllaw y DU. Mae'n destun pryder nad yw'r ymgynghoriad yn adlewyrchu canfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol yn briodol a'i fod yn cyflwyno opsiynau a wrthodwyd yn glir gan y panel o arbenigwyr.

Mae'r broses ymgynghori ei hun yn annigonol. Yn ogystal â'r oedi wrth gyhoeddi'r fersiwn Gymraeg a fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r dogfennau ymgynghori, ymddengys fod yr ymgynghoriad wedi'i gyfyngu i dderbyn ymatebion digidol yn unig. Mae'n ymddangos nad oes modd gwneud cais am ddulliau eraill o ymgysylltu â'r ymgynghoriad ac rwy'n cwestiynu i ba raddau y rhoddwyd ystyriaeth i ymgysylltu â phobl hŷn, llawer ohonynt wedi'u heithrio'n ddigidol. Mae hyn yn golygu bod rhai o'r union bobl y byddai'r Ddeddf Hawliau drafft yn ceisio'u gwasanaethu yn cael eu heithrio o'r cyfle i fynegi eu barn. Dylid ymestyn y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yn gyntaf i ganiatáu mwy o gyfranogiad, yn enwedig gan bobl â nodweddion gwarchodedig a rhoi mwy o sylw i ddulliau eraill o ymgynghori i sicrhau bod pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn gallu cyfrannu.

Mae'r cynnig i fynnu bod pobl yn profi 'anfantais sylweddol' cyn y gallant geisio cyfiawnder yn destun pryder mawr. Mae llawer o bobl, gan gynnwys pobl hŷn, eisoes yn wynebu rhwystrau i gyfiawnder ac nid yw cyflwyno rhwystrau pellach i herio achos o dorri hawliau dynol person yn dderbyniol ac mae'n tanseilio'r cysyniad o ddiogelu hawliau sylfaenol. Bydd y cynnig hwn yn targedu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn annheg ac yn creu rhwystrau mwy i herio gweithredoedd anghyfreithlon.

Mae rhwymedigaethau cadarnhaol yn rhan hanfodol a chynhenid o ddiogelu hawliau dynol yn effeithiol ac maent yn elfen o bob fframwaith diogelu hawliau dynol ledled y byd. Felly, yr wyf yn bryderus ynghylch y cynigion i leihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i amddiffyn hawliau – boed hynny drwy ganiatáu i awdurdodau cyhoeddus anwybyddu rhwymedigaethau hawliau dynol cadarnhaol os oes ganddynt flaenoriaethau eraill neu ddileu'r gallu i awdurdodau gael eu herio yn y llys am fethu â'u cyflawni. Er bod y cynigion yn y maes hwn yn aneglur, byddai eithrio rhwymedigaethau cadarnhaol yn y DU yn tanseilio hawliau pobl yn ddifrifol.

Mae herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yn hanfodol i'm rôl fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac rwy'n poeni y byddai'r cynigion hyn yn gwanhau'n ddramatig y gallu i ddal y llywodraeth a'r awdurdodau i gyfrif. Mae pandemig Covid-19 wedi dangos yr angen i hawliau pobl hŷn gael eu diogelu a'r angen i rôl y Comisiynydd gynnal hawliau pobl hŷn drwy herio achosion posibl o dorri amodau. Mae'r angen am hyrwyddwr annibynnol gyda phwerau cyfreithiol i sefyll dros bobl hŷn yn cael ei

---

[1] Yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol - https://www.gov.uk/guidance/independent-human-rights-act-review

ddangos gan y galw cynyddol am Gomisiynwyr Pobl Hŷn mewn rhannau eraill o'r DU. Mae hyn yn tynnu sylw at y lefel gynyddol o ymwybyddiaeth ynghylch hawliau pobl hŷn a'r angen i sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal.

Dylai'r rhwymedïau am dorri hawliau dynol ddibynnu ar y niwed a wneir i'r unigolyn ac nid ar ymddygiad blaenorol unigolyn – mae hawliau dynol yn rhai cyffredinol. Yr wyf yn pryderu'n fawr, felly, am y cynnig i greu dull gweithredu ar gyfer hawliau lle bernir bod un person yn fwy teilwng nag un arall. Mae'n anghredadwy, er enghraifft, y gallai person hŷn sy'n byw gyda dementia gael llai o iawn am dorri ei hawliau dynol gan ddarparwr gofal dim ond am ei fod wedi'i gael yn euog o drosedd mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw hawliau dynol yn rhywbeth rydych chi'n eu hennill drwy ymddygiad da; maent gennych oherwydd eich bod yn ddynol.

Er gwaethaf y cynigion hyn sy'n effeithio ar y DU gyfan, nid oes fawr o sôn am ddatganoli a'r effaith y bydd dileu'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei chael ar Gymru a'i deddfwriaeth. Mae cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn rhan hanfodol o'r setliad datganoli, gyda Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwneud cydymffurfio â'r Confensiwn yn agwedd ganolog ar ddatganoli yng Nghymru. Mae'r newidiadau a gynigir yn rhai cyfansoddiadol iawn a bydd iddynt oblygiadau difrifol ar gyfer hawliau dynol a datganoli yng Nghymru.

Nid yw'n glir sut bydd y cynigion yn rhyngweithio â deddfwriaeth a pholisi datganoledig Cymru. Nid yw'n glir chwaith sut y gall y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn gyd-fynd â'r dull mwy blaengar a ddefnyddir yng Nghymru i ddiogelu ac ehangu hawliau. Yr wyf finnau, fel Gweinidogion Cymru a nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli cymdeithas sifil, yn pryderu y bydd y cynigion hyn yn cyfyngu ein dyheadau yng Nghymru tuag at ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau.

Felly, yr wyf yn ymuno â nifer o randdeiliaid eraill yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i alw am gadw'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ei ffurf bresennol heb wanhau hawliau dynol yng Nghymru. Rhaid i'r Deyrnas Unedig barhau i arwain y byd o ran amddiffyn a galluogi pobl i arfer eu hawliau dynol a cheisio gwella hawliau pobl ymhellach yn hytrach na lleihau'r amddiffyniadau y maent yn eu rhoi i bob un ohonom.

Yn gywir,

Heléna Herklots CBE

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

[i] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Traciwr Hawliau Dynol, 2021 - https://humanrightstracker.com/en/

[ii] Adroddiad Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar Oedraniaeth, 2021 – https://www.who.int/publications/i/item/9789240016866